



Ysgol Y Strade, ☎ (01554) 745100
Heol Sandy, swyddfa@strade.sirgar.sch.uk
Llanelli,
Sir Gâr,
SA15 4DL,

Annwyl rieni a gofalwyr,

Hoffwn gynnig diweddariad byr i chi wrth i ni baratoi i groesawu pob disgybl yn ôl ar y safle o ddydd Mawrth Ebrill y 13eg.

Iechyd a diogelwch

Fel yr amlinellwyd yn flaenorol, rydym yn disgwyl i bob disgybl a myfyriwr barchu'r mesurau lliniaru Covid sydd ar waith yn yr ysgol. Mae'r rhain yn cynnwys systemau unffordd, trefniadau golchi dwylo a glanweithdra ychwanegol, a chynnal pellter cymdeithasol o 2 fetr oddi wrth oedolion.

Yn ychwanegol:

- Disgwylir i bob disgybl wisgo masg wyneb a ddarperir gan yr Awdurdod Lleol ym mhob ardal dan do, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth ac yn ystod gwersi - os oes ceisiadau am eithriad o'r trefniant hwn, dylai rhieni ysgrifennu at y Pennaeth Blwyddyn priodol.
- Bydd yr holl staff sy'n gweithio ar safle'r ysgol yn cwblhau Profion Llif Ochrol ddwywaith yr wythnos. Mae disgyblion ym Mlynnyddoedd 10 i 13 hefyd wedi cael y profion hyn gyda chyfarwyddiadau ar sut i ymateb os nodir canlyniad prawf positif - mae llythyr cysylltiedig wedi'i gynnwys gyda'r neges hon.
- Os yw'ch plentyn yn profi'n positif am Covid-19 dros wyliau'r Pasg, cysylltwch â Delta Wellbeing trwy ffonio 0300 333 2222 neu drwy e-bostio TTP@deltawellbeing.org.uk

Trefniadau o ddydd i ddydd

Bydd cludiant ysgol yn gweithredu fel arfer ar ôl gwyliau'r Pasg.

Disgwylir i ddisgyblion wisgo masgiau wyneb pan fyddant ar y bus.

Bydd disgyblion yn dilyn eu hamserlen ysgol arferol.

Disgwylir i ddisgyblion wisgo gwisg ysgol lawn a chadw at reolau arferol yr ysgol o ran ymddangosiad - os oes unrhyw broblemau, cysylltwch â'r Pennaeth Blwyddyn priodol.

Lles

Mae'r cyfnodau clo wedi bod yn anodd iawn i bobl ifanc, yn enwedig o ran cynnal cyfeillgarwch a chadw trefn. Anogir disgyblion i rannu unrhyw bryderon gyda staff fel y gellir trefnu cefnogaeth. Byddwn hefyd yn annog rhieni a gofalwyr i gysylltu â'r ysgol pe bai gennych unrhyw bryderon am eich plant.

Graddau a Benderfynir gan Ganolfannau

Rhannwyd nifer o lythyrau, dogfennau a fideos gyda rhieni a dysgwyr ym Mlynnyddoedd 11,12 a 13 dros yr wythnosau diwethaf mewn cysylltiad â'r broses o bennu graddau. Yn yr

Pennaeth

Mr Geoff Evans B.Sc (Hons), M. Ed



Ysgol Y Strade, ☎ (01554) 745100
Heol Sandy, swyddfa@strade.sirgar.sch.uk
Llanelli,
Sir Gâr,
SA15 4DL,

un modd â phob ysgol uwchradd arall, ar hyn o bryd rydym yn aros am gadarnhad o'n polisi Graddau gan CBAC - byddwn yn darparu rhagor o wybodaeth ar ôl y Pasg. Rydym yn gobeithio rhyddhau Graddau a Benwyd gan y Ganolfan 'dros dro' ar Fehefin y 18fed, 2021.

Trefniadau ffreutur

Bydd y ffreutur yn gweithredu ar sail 'Grab and Go' fel cyn y Nadolig. Atgoffir pob rhiant a gofawyr i ddefnyddio 'ParentPay' i ychwanegu arian er mwyn sicrhau bod gan bob plentyn ddigon o arian yn ei gyfrif. Mae wedi bod yn hyfryd gallu croesawu ein disgyblion yn ôl i'r ysgol dros yr ychydig wythnosau diwethaf. Rydym i gyd yn edrych ymlaen at i hynny barhau yn ystod yr wythnosau a'r misoedd i ddod. Unwaith eto, hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch yn ddiffuant ichi am eich cefnogaeth yn ystod yr amser heriol ac unigryw hwn.

Yn gywir

Geoff Evans
Pennaeth



Pennaeth

Mr Geoff Evans B.Sc (Hons), M. Ed